CANLLAW I GYFLOGWYR AM YFED NADOLIGAIDD

Amcangyfrifir bod achosion o gamddefnyddio alcohol sy'n gysylltiedig â gwaith yn costio hyd at £6.4 biliwn y flwyddyn i economi'r DU, gyda 28% o bobl Cymru yn cyfaddef eu bod yn cael pyliau o oryfed.

Mae Alcohol Concern Cymru wedi paratoi'r cyngor hwn i gyflogwyr sy'n poeni am eu cyfrifoldebau cyfreithiol tuag at eu staff yn ystod achlysuron a phartïon a gynhelir y tu allan i'r gweithle.

CYNGOR AR GYNNAL PARTI NADOLIG I WEITHWYR CYFLOGEDIG

Dylech gyfyngu "bar agored" i'r awr neu ddwy gyntaf yn unig, a chyfyngu ar y diodydd sydd ar gael ar 'tab'. Er enghraifft, peidiwch â chynnwys gwirodydd neu goctels. Gwnewch yn siwr fod pawb yn gwybod fod diodydd ysgafn ar gael, a gofalwch nad yw'r staff yn teimlo pwysau i yfed diodydd alcohol.

Os ydych chi'n cael pryd o fwyd, dylech gyfyngu'r gwin i un botel rhwng tri a gofalu bod digon o ddŵr ar y bwrdd a bod dewis o ddiodydd ysgafn ar gael.

Ceisiwch gael y staff i fod yn ymwybodol o'u terfynau yfed personol. Dylai'r rheolwyr osod esiampl trwy fod yn gyfrifol.

Dylech atgoffa staff bod yr un rheolau'n berthnasol i'r parti Nadolig ag i'r swyddfa.

Mae'n bwysig cynghori staff na ddylen nhw yrru os ydyn nhw'n yfed. Beth am drefnu cwmni tacsi neu drefnu cludiant i'r daith adref? Cofiwch, gallwch fod yn atebol am y daith i ac o'r gwaith, a gall partïon gwaith berthyn i'r categori hwnnw.

Y MATERION CYFREITHIOL

- Rhaid i gyflogwr daro'r cydbwysedd iawn rhwng hawliau unigolion sy'n weithwyr cyflogedig iddynt a lles y staff i gyd.
- Mae deddfwriaeth allweddol sy'n rhoi sylw i'r ddyletswydd gofal yn cynnwys:
  - **Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999:** Mae'n gosod dyletswydd ar gyflogwyr i asesu risgiau sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch gweithwyr cyflogedig.
  - **Deddf Hawliau Cyflogaeth 1999:** Mae'n gosod dyletswydd ar gyflogwyr i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig am eu rheolau a'u gweithdrefnau disgyblu.
  - **Deddf Hawliau Dynol 1996:** Mae Erthygl 8 yn nodi bod gan weithiwr cyflogedig hawl i fywyd preifat a bod gan cyflogwr hawl i amddiffyn enw da'r sefydliad.
  - **Deddf Diogelu Data 1998:** Rhaid i gyflogwyr sicrhau bod unrhyw brofion am alcohol neu gyffuriau yn cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data.
  - **Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974:** Mae'n gosod dyletswydd ar gyflogwyr i sicrhau iechyd, diogelwch a lles eu gweithwyr cyflogedig. Rhaid iddynt sicrhau nad yw eu gweithwyr cyflogedig yn niweidio'u hunain nac yn peryglu'r cyhoedd na'u cydweithwyr.
  - **Deddf Traffig Ffyrdd 1988:** Gall unrhyw un sy'n gyrru, neu'n ceisio gyrru, cerbyd modur tra'n anaddas i yrru yn sgil alcohol gael ei erlyn o dan y ddeddf hon.
  - **Deddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992:** Mae'n nodi ei bod hi'n drosedd i bobl sydd dan ddylanwad diod neu gyffuriau wneud swyddi penodedig.
  - **Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003:** Mae'n nodi'r terfynau a'r amrywiol droseddau y gellir eu cyflawni gan bobl sy'n gweithio ym meysydd hedfan, trafnidiaeth a llongau.

Dylai cyflogwyr fod â pholisi alcohol a dylid atgoffa pawb ohono adeg y Nadolig. Bydd polisi effeithiol yn sicrhau lles staff, diogelwch y cyhoedd, bydd yn diogelu'r sefydliad rhag hawliadau annheg ac yn cynnal enw da'r sefydliad.

O gael cefnogaeth, hyfforddiant a pholisi effeithiol yn y gweithle, mae'n bosib i gyflogwyr ymyrryd yn effeithiol os bydd problemau'n codi.

Am wybodaeth bellach ar fwynhau diod mewn ffordd iach, ewch i **www.yfeddoethcymru.org.uk**